

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Lun Ionawr 8fed 2018 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Alun Owen, Paul Weston
2. **Preseanol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, a'r Cynghorydd Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Rhagfyr:** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. BDO – anfoneb 2015-16 – dim ateb hyd yma i'n llythyr.
 - 5.2. Cyflymdra traffig - Dim ymateb hyd yma.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 Dim
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Ar ôl archwilio'r Gyllideb ac ar gynigiad Dewi Evans gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn cafwyd popeth yn gywir ac mewn trefn.
8. **Cyfrifo ac Archwilio:**

Archwiliwyd cysoniadau banc a chafwyd popeth mewn trefn, ar gynigiad Gerallt Jones gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn.
9. **Talu Anfonebau:**
 - 9.1. Cradur – gwefan 2017-18 – cynigiodd Edmund Rees gyda Gerallt Jones yn eilio talu'r anfoneb o **£24.40** gyda siec rhif **100314**.
 - 9.2. CBSC -Etholiad Mai 2017 – ar gynigiad Dewi Evans gyda Gerallt Jones yn eilio cytunwyd i dalu'r anfoneb o **£143.45** gyd siec rhif **100315**.
 - 9.3. Cynllun Penrallt – coeden Nadolig – cynigiodd Gerallt Jones gyda Edmund Rees talu'r **£105.00** gyda siec rhif **100313**.
10. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis.** Dywedodd fod waith caled o'i blaen yng Nghonwy i drïo cael trefn ar y sefyllfa ariannol. Dywedodd ei fod yn dal i roi pwysau am ateb ynglŷn â sefyllfa cyflymdra heibio'r ysgol.
11. **Unrhyw fater arall:**
 - 11.1. Canolfan Pentrefoelas – llythyr yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y goeden Nadolig.
 - 11.2. Ysgol Pentrefoelas – cais gan y Pennaeth Ann Jones am gyfraniad tuag at gostau taith i Gaerdydd. Gan fod 10 disgybl o'r ysgol yn mynd cynigiodd Dewi Evans gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn anfon **£150.00** gyda siec rhif **100312** ar yr amod fod y plant yn derbyn £15 yr un tuag at eu costau gan fod cost yr ymweliad yn £132.00 yr un, ac awgrymwyd fod 2 neu 3 o'r disgyblion yn dod i'n cyfarfod i adrodd ychydig o hanes eu taith. Cafwyd cadarnhad gan y Pennaeth fod 10 disgybl yn mynd ar y daith.
 - 11.3. Ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr yr ysgol – cynigiodd Dewi Evans fod Gari Jones yn cael ei ail ethol. Cytunwyd ar hun.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Chwefror 5ed 2018 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____ **G B Jones** _____ Dyddiad _____ 06.02.2018
Cadeirydd

